Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 21.12.2020

## Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 ar draws Cymru

O hanner nos Dydd Sadwrn 19 Rhagfyr 2020 daeth cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 i rym ar draws Cymru gyfan.

- Datganiad Prif Weinidog Cymru 19 Rhagfyr 2020

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyfyngiadau-lefel-rhybudd-pedwar

Gellir cael gwybodaeth cynhwysfawr am gyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 yng Nghymru ar y dolenni isod:

- Lefel Rhybudd 4: Crynodeb o beth sy'n rhaid i chi ei wneud a beth sydd ar agor ar lefel rhybudd uchel iawn lefel 4.

https://llyw.cymru/canllaw-lefel-rhybudd-4

- Lefel Rhybudd 4: cwestiynau cyffredin

Canllawiau ar sut i ddiogelu eich hun a pha reolau sydd yn eu lle i ddiogelu pobl yn Lefel Rhybudd 4.

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-4-cwestiynau-cyffredin

- Cau busnesau: Lefel Rhybudd 4

Canllawiau ar pa fusnesau sy'n gorfod cau ar lefel rhybudd 4.

https://llyw.cymru/cau-busnesau-lefel-rhybudd-4

- Gwasanaethau clicio a chasglu

Yn wahanol i gyfnodau clo blaenorol, ar Lefel Rhybudd 4 caiff pob siop gynnig gwasanaethau clicio a chasglu neu wasanaethau tebyg, p'un a yw'n ofynnol iddynt gau eu safle ai peidio. Er mwyn lleihau nifer y teithiau y mae pobl yn eu gwneud, rhaid archebu pob eitem a gwasanaeth ymlaen llaw ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r post.

http://bit.ly/CanllawiauClicCasglu

# Cymorth ychwanegol i fusnesau mewn ymateb i gyfyngiadau newydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd £110m o gymorth ariannol ychwanegol i gefnogi busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4, ewch i:

http://bit.ly/2WpCjEY

Lansiwyd Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau gan Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r cyfyngiadau ar leoliadau lletygarwch, atyniadau ymwelwyr, lleoliadau celfyddydol ac adloniant rhwng 4 a 23 Rhagfyr 2020. Gan fod Cymru wedi mynd i gyfyngiadau Rhybudd Lefel 4, bydd y cymorth yn cael ei ymestyn i fusnesau y mae'r cyfyngiadau ychwanegol yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi rhyddhau taliadau i rai busnesau lletygarwch (gan gynnwys gwestai, tafarndai, atyniadau ymwelwyr a bwytai o

bob math), a bydd yn rhyddhau taliadau i fusnesau eraill y mae'n ofynnol iddynt gau (gan gynnwys llety gwyliau, gwasanaethau manwerthu nad ydynt yn hanfodol a gwasanaethau cyswllt agos) cyn gynted â phosibl, gan ddechrau yn yr wythnos sy'n dechrau ar 28 Rhagfyr 2020.

Bydd cymorth hefyd ar gael i fusnesau yn y cadwyn gyflenwi a busnesau nad ydynt yn talu Ardrethi Annomestig. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael o yfory ymlaen, ewch i:

https://bit.ly/CronCyfRhag2020

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru